
# CEFNOGAETH I LYWODRAETHWYR

## Arfer dda wrth Gynllunio a Chyflwyno Ieithoedd Modern mewn Ysgolion



routes into LANGUAGES
Llwybrau at ieithoedd
CYMRU

# ARFER DDA: CYNLLUNIO'R CWRICWLWM AR GYFER IEITHOEDD

**CYFLWYNIAD**

Pwrpas y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth ac esiamplau o arfer dda i Lywodraethwyr. Mae'n cynnwys esiamplau o weledigaeth, cynllunio a sut mae ieithoedd wedi eu cyflwyno mewn ysgolion yng Nghymru. Mae hefyd yn dangos sut mae ysgolion wedi llwyddo i hyrwyddo a darparu profiadau ysbrydoledig i ddisgyblion. Bwriedir i'r llawlyfr gael ei ddefnyddio ochr yn ochr gyda'r adnoddau ategol eraill yn y pecyn ar gyfer llywodraethwyr, a hefyd i'w defnyddio i lywio trafodaeth.

Rhoddir esiamplau ar sut mae hyn yn edrych i athrawon yn yr esiamplau a ddarperir ymhob adran.

Hoffem estyn gair o ddiolch i'r canlynol am eu parodrwydd i gyfrannu i'r canllaw hwn ac i'w llongyfarch am y datblygiadau rhagorol yn eu hysgolion:

1. Ysgol Alun
2. Ysgol Gyfun Lewis i Ferched
3. Ysgol Gyfun Trefynwy
4. Ysgol Gyfun Porthcawl
5. Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
6. ERW

# CYMORTH RHAGWEITHIOL AC ARWEINIAD ODDI WRTH LYWODRAETHWYR

**Mae'r nodweddion canlynol o arfer dda yn amlwg:**

1. Mae'r uwch dîm rheoli a llywodaethwyr yn cynnig cefnogaeth gadarn i ieithoedd a mae hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau llwyddiant.

2. Mae gan y Corff Llywodraethol weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn nhermau'r ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd sydd wedi ei seilio ar:

a. Dystiolaeth a gafwyd o ddata'r ysgol
b. Lais y disgybl
c. Anghenion y gymuned ar gyfer y dyfodol
d. Gydweithio gyda staff yr Adran Ieithoedd

3. Ffocws clir ar bolisi ysgol gyfan a chynllunio'r cwricwlwm, a gosodir yr ethos gadarn ar gyfer dysgu ieithoedd ar draws yr ysgol gan y Corff Llywodraethol ac fe amlygir hyn yn y cynllun datblygu ysgol.

4. Mae penderfyniadau'r cwricwlwm yn ymateb i anghenion y disgybl ac anghenion y gymuned yn ehangach, ac nid am resymau ariannol yn unig.

5. Gofynnir cwestiynau cyson gan yr uwch dîm rheoli ac arweinwyr am y niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd, gan gryfhau proses atebolrwydd yr ysgol.

6. Llywodraethwr Cyswllt cefnogol sy'n deall anghenion y disgyblion ac sy'n gyswllt allweddol rhwng yr adran ieithoedd a'r llywodraethwyr.

7. Mae cefnogeth gadarn at ieithoedd yn cael ei adlewyrchu mewn adran sydd yn meddu ar adnoddau da gan gynnwys defnydd arloesol o dechnoleg fodern wrth addysgu, dysgu ac wrth gynnig anogaeth i ddisgyblion.

8. Mae deialog gyson ar lefel ysgol gyfan a thu hwnt yn cael ei chynnal yn rheolaidd.

# CYMORTH GWEITHREDOL AC ARWEINIAD ODDI WRTH LLYWODRAETHWYR

"Mae'r Llywodraethwyr yn gefnogol iawn wrth hyrwyddo ieithoedd. Maent yn mynychu digwyddiadau ac yn cefnogi prosiectau.  Mae hyn yn cynnwys gwahodd llywodraethwyr sydd â chysylltiadau iaith i gwrdd â sgwrsio gyda disgyblion (e.e. cyn-athro). Mae llywodraethwr cyswllt yn mynychu cyfarfodydd adolygu ddwywaith y flwyddyn gyda'r pennaeth".




"Yn ffodus, o ganlyniad i gymorth oddi wrth Brifysgol Caerdydd a chefnogaeth gan lywodraethwyr, gwnaethom lwyddo i gadw ein dosbarth Uwch Gyfrannol, er bu'n rhaid i ni dderbyn lleihad yn y nifer o wersi er mwyn cyflwyno'r cwrs"

"Mae gennym ni Lywodraethwr Cyswllt Ieithoedd Modern. Rydym yn cwrdd i drafod perfformiad, y niferoedd sy'n dewis astudio'r pwnc, a materion cyffredinol.  Mae yna'n ein cynrychioli mewn cyfarfodydd gan hyrwyddo ieithoedd. Mae gen i berthynas broffesiynol dda iawn gyda fy llywodraethwr dros nifer fawr iawn o flynyddoedd"

# DULL EFFEITHIOL GAN YR UWCH DÎM RHEOLI

**Mae’r nodweddion canlynol o arfer dda yn amlwg:**

1. Mae’r pennaeth ac uwch dîm rheoli wedi cynllunio’n ofalus y camau ar gyfer dysgu ac addysgu ieithoedd yn y cynllun datblygu ysgol.

2. Mae’r pennaeth ac uwch dîm rheoli yn cefnogi’n frwd, ac yn awyddus i godi statws, ieithoedd modern gan sicrhau ei fod yn ddewis amlwg ar amserlen ddewisiadau cyfnod allweddol 4.

3. Mae’r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn ceisio sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfle i ddysgu o leiaf un iaith hyd at safon arholiad yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

4. Bod ieithoedd yn cael ei hyrwyddo gan yr uwch dîm rheoli i rieni a disgyblion - bod y pwnc yn cael ei weld fel elfen graidd o gwricwlwm cyfnod allweddol 4 gan annog mwy o ddisgyblion i ddewis y pwnc.

5. Mae partneriaethu gyda’r ysgolion cynradd sy’n bwydo’r Ysgol er mwyn datblygu ieithoedd yn cryfhau’r arfer o ddysgu ieithoedd ac yn darparu gweithgareddau pontio ychwanegol ar gyfer disgyblion.

> “Mae’r uwch dîm rheoli yn gefnogol iawn ac mae cyfeiriad a deilliannau'r adran wedi gwella'n sylweddol ers y cyfarfod rheolwr llinell diweddar”

> “Er mwyn hyrwyddo ieithoedd a chefnogi’r nifer o fychan o ddisgyblion sy’n dymuno parhau i astudio ieithoedd ôl-16, mae’r ysgol wedi caniatáu i ddosbarthiadau gyda niferoedd llai i redeg. Mae hyn wedi golygu bod yna bum gwaith yn fwy o ddisgyblion yn astudio ieithoedd ym mlwyddyn 12”

“Mae ein rheolwyr bob amser yn hapus i drafod materion sy’n gysylltiedig â ieithoedd rhyngwladol yn ein ysgol.  Mae trafodaethau am golofnau opsiynau a’r niferoedd sy’n dewis ieithoedd, yn enwedig yn TGAU, yn digwydd yn rheolaidd, ac yn cynnwys yr adran, y tîm bugeiliol a’r uwch dîm rheoli”

“Uwch dîm rheoli cefnogol sy’n adnabod ymdrechion yr adran ac sy'n deall y cyd-destun cenedlaethol lle mae yna leihad yn y niferoedd sy’n dewis ieithoedd.  Maent yn agored i’n ceisiadu i drio colofnau opsiwn newydd.  Rydym yn cyd-ddysgu gwersi llafar cyfnodau allweddol 4 a 5 ac mae’r uwch dîm yn gefnogol o’n statws fel Ymarferwyr Arweiniol”

“Rydym yn hynod o ffodus i gael Uwch Dîm Rheoli cefnogol iawn dros ben. Mae ein niferoedd Lefel A weithiau’n isel ond yn ffodus rydym dal yn cael yr oriau priodol ar ein hamserlen.  Rydym yn parhau i gynnig ail iaith fodern ym mlwyddyn 9.  Mewn cyfarfodydd gyda rhieni (e.e. nosweithiau dewisiadau CA4) ac mewn gwasanaethau, mae ieithoedd yn cael eu hyrwyddo fel pwnc hanfodol yn addysgu ein disgyblion”

“Mae’r Uwch Dîm Rheoli yn frwdfrydig iawn dros gynnig cwricwlwm eang a dyma paham y cynigir tair iaith.  Ar adegau, rydym wedi gorfod derbyn lleihad yn yr oriau Lefel A o ganlyniad bod llai na 3 disgybl wedi dewis y pwnc, ond derbyniwn hyn gan fod yr Uwch Dîm Rheoli o dan bwysau ariannol mawr.  Nid ydym wedi gorfod lleihau’r cynnig ieithoedd o gwbl, hyd yn oed oes yw’r niferoedd sy’n dewis ieithoedd fel pwnc TGAU yn fach”

# ARFER DDA WRTH GYNLLUNIO'R CWRICWLWM

**Mae'r nodweddion canlynol o arfer dda yn amlwg:**

1. Nodwedd amlwg iawn o arfer dda yw lle y cynigir ac a ddysgir amrywiaeth o ieithoedd gan ddisgyblion, gan olygu bod niferoedd mwy yn dewis astudio ieithoedd yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16.

2. Mae niferoedd uwch o ddisgyblion sy'n dewis ieithoedd o ganlyniad i gynllunio cwricwlwm sydd yn hyblyg ac sy'n cymryd i ystyriaeth anghenion y disgyblion e.e:

- Dewis rhydd o bynciau – dewis a arweinir gan y dysgwr yn hytrach na cholofnau dewis anhyblyg.
- Blociau opsiwn 'a/neu' gyda ieithoedd yn ymddangos mewn sawl colofn gan ganiatau niferoedd uwch o ddisgyblion i ddewis ieithoedd.
- Darganfod ffyrdd creadigol o drefnu amserlen gyda grwpiau bach o ddisgyblion.
- Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion eraill er mwyn sicrhau bod ieithoedd yn ffynnu.
- Cynnig cymwysterau iaith amgen ochr yn ochr gydag astudiaethau'r disgyblion a sicrhau eu bod yn parhau i astudio iaith.

3. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cynnig cyfleon i grŵp bach o ddisgyblion i barhau astudio iaith fodern yng nghyfnod allweddol 4, gan fod yn greadigol yn y ffordd y maent yn trefnu'r amserlen.

4. Defnydd creadigol o TGCh gan gynnwys cyfleon i ddisgyblion fod yn greadigol yn eu defnydd o ieithoedd e.e sgyrsiau dyddiol gydag ysgolion cyfnewid yn Ewrop.

5. Bod yr amser a roddir i wersi ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 4 yn unol â'r hyn a roddir i bynciau anghraidd eraill.

6. Y Pennaeth i ganiatau i grwpiau bach iawn i barhau astudio iaith yng nghyfnod allweddol 4 gan osod targedau heriol i'r adran a'r disgyblion fel bod:

- Y ddarpariaeth yn cwrdd a dymuniadau'r disgyblion
- Y pwnc yn weledol ar amserlen cyfnod allweddol 4, yn rhan allweddol o gwricwlwm cyfnod allweddol 4 ac felly'n annog mwy o ddisgyblion i ddewis y pwnc
- Yna fantais er mwyn adeiladu statws ieithoedd modern.

"TGAU – Cyfleon i gwblhau cymhwyster galwedigaethol fel rhan o'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau mewn iaith arall na astudir fel pwnc TGAU – Eidaleg (cynigir Ffrangeg. Almaeneg a Sbaeneg hefyd)".

"Rydym yn cynnig tair iaith yn TGAU, UG a Lefel A - Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Ym mis Rhagfyr, gofynnir i ddisgyblion blwyddyn 9 i wneud dewis rhydd o dri phwnc, gyda'r opsiwn o ddewis pedwar, yr hoffent eu hastudio. Mae'r Pennaeth Cynorthwyol yna'n ceisio cwrdd â'r gofynion i gyd gan osod y dewisiadau mewn colofnau opsiwn. Weithiau nid yw hyn yn llwyddiannus ond fel arfer mae gofynion dros 95% o'r disgyblion yn cael eu diwallu. Yna, ceir trafodaeth i esbonio paham bod yr ieithoedd wedi cael eu gosod mewn colofnau penodol, cyn cael eu rhannu gyda'r disgyblion ym mis Chwefror. Nid dyma'r dewisiadau terfynol serch hynny. Rydym yn ceisio gosod yr ieithoedd mewn tair colofn wahanol er mwyn galluogi ieithyddion dwbl i ddewis mwy nag un iaith, er, mae hyn yn dibynnu ar ddiddordeb wrth gwrs. Pan wneir y dewisiadau ym mis Chwefror, mae'r drafodaeth ynglŷn â'r ffyrdd priodol o ddiwallu anghenion y disgyblion. Yn y gorffennol mae pynciau wedi cael eu cyfnewid er mwyn cefnogi dewis y disgyblion".

"Mae ein blociau opsiwn cyfnod allweddol 4 yn hyblyg a newidir y colofnau pob blwyddyn. Rydym wedi sylwi ar newidiadau mawr yn y niferoedd sy'n dewis ieithoedd yn ddibynnol ar yr amrediad o bynciau a gynigir ac mae'r pynciau sy'n 'gwrthdaro' a'i gilydd yn newid o flwyddyn i flwyddyn. Bellach mae gennym ni golofn yr un ar gyfer Ffrangeg ac Almaeneg, sy'n galluogi disgyblion Mwy Abl a Thalentog i ddewis dwy iaith fel pwnc TGAU. Nid yw ieithoedd yn derbyn yr un niferoedd pan y maent yn cael eu gosod yn erbyn Gwyddoniaeth Driphlyg, ond dyma'r duedd gyffredinol ar draws y pynciau".

## Ysgol 1

"Mae yna dri bloc opsiwn.  Cynigir Ffrangeg ac Almaeneg mewn dau floc opsiwn – 1 a 3. Fel arfer, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn dewis Iaith Fodern yn opsiwn 1"

| BLOC OPSIWN 1 | BLOC OPSIWN 2 | BLOC OPSIWN 3 |
|---|---|---|
| Celf a Dylunio | Cyfrifiadureg | Celf a Dylunio |
| Ffrangeg | Bwyd a Maeth | Busnes |
| Almaeneg | Hanes | Ffrangeg |
| Hanes | TGCh | Daearyddiaeth |
| Astudiaethau Cyfryngau | Celfyddydau Perfformio (BTEC) | Almaeneg |
| Adeiladwaith | Ffotograffiaeth | Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Peirianneg | Addysg Gorfforol | Cyfryngau (BTEC) |
| Dylunio Cynnyrch | Astudiaethau Crefyddol | Cerddoriaeth |

## Ysgol 2

"Dyma ein blociau opsiynau cyfredol ar gyfer TGAU - nid ydynt wedi newid ryw lawer ers sawl blwyddyn.  Mae'n rhaid i bynciau a rennir gydag ysgolion eraill (e.e Sbaeneg) aros yn yr un golofn ar gyfer TGAU ac ar gyfer Lefel A fel eu bod yn medru cael eu hamserlenni ar draws y tair ysgol partner".

| BLOC OPSIWN 1 | BLOC OPSIWN 2 | BLOC OPSIWN 3 |
|---|---|---|
| Daearyddiaeth | Daearyddiaeth | Addysg Gorfforol |
| Sbaeneg | Drama | Arlwyo |
| Celf a Dylunio 3D | Graffeg | Celf a Dylunio |
| Technoleg Cerdd | Gwasanaethau Cyhoeddus | Chwaraeon a Hamdden |
| Cerddoriaeth | Hanes | Cymdeithaseg |
| Astudiaethau Crefyddol | Awyr Iach (BTEC Galwedigaethol) | Hanes |
| Dylunio Cynnyrch | Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Ffrangeg |
| Cyfrifiadureg | TGCh | |
| Awyr Iach (BTEC Galwedigaethol) | Astudiaethau Crefyddol | |

# TUEDDIADAU IEITHOEDD DROS Y PEDAIR MLYNEDD DDIWETHAF

Mae ysgolion sydd wrthi yn ddiwyd yn hyrwyddo a chefnogi ieithoedd modern yn derbyn niferoedd iach yn astudio ieithoedd fel pwnc TGAU, UG a Lefel A er gwaethaf yr anawsterau sy'n wynebu'r pynciau hyn.  Mae hyrwyddo cyson, cefnogaeth gadarn ac addysgu rhagorol hefyd yn cael eu hystyried yn elfennau pwysig wrth gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n dewis astudio ieithoedd, er gwaethaf yr anawsterau hyn.

## TGAU

**Ysgol 1**

"Mae'n her barhaus sicrhau'r niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd yng nghyfnod allweddol 4. Rydym wedi canolbwyntio ar hyrwyddo ieithoedd yng nghyfnod allweddol 3 ac mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r niferoedd sydd wedi dewis astudio TGAU ym Medi 2020"

| Niferoedd sydd wedi dewis y pwnc | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|
| TGAU | | 7 | 22 | 23 |

**Ysgol 2**

| TGAU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
| Ffrangeg | 39 | 44 | 29 | 34 | 29 |
| Almaeneg | 20 | 14 | 12 | | 15 |
| Sbaeneg | 20 | 22 | 20 | 14 | 18 |
| CYFANSWM | 79 | 80 | 61 | 48 | 62 |

"Yn 2020-21 mae gennym ni 60 disgybl ymhob bloc opsiwn felly mae cyfanswm o 120 o ddisgyblion yn astudio Ffrangeg ac Almaeneg – bron 50% o'r cohort TGAU – nid yw hyn erioed wedi digwydd o'r blaen."

"Mae yna leihad wedi bod yn y niferoedd sy'n dewis ieithoedd dros y blynyddoedd diwethaf ac felly cyflwynwyd cwricwlwm newydd, trefnwyd teithiau tramor, cyflwynwyd llysgenhadon iaith a digwyddiadau iaith a fe drafodwyd canlyniadau cyfnod allweddol 4 gyda chyfnod allweddol 3 gan ein bod o hyd yn cael canlyniadau da. Cynyddodd y niferoedd sy'n dewis ieithoedd fel canlyniad i hyn"



# UG/Lefel A

Ysgol 3

| Niferoedd sydd wedi dewis y pwnc | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|
| Lefel A | 12 | 8 | 10 | 10 |
| UG | 10 | 15 | 18 | 21 |

Ysgol 4

| Niferoedd sydd wedi dewis y pwnc | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Lefel A (Ffr) (Alm) | 8 (2) (6) | 8 (5) (3) | 11 (7) (4) | 7 (3) (4) |
| Cyfanswm UG (Ffr) (Alm) | 19 (13) (6) | 14 (9) (5) | 19 (12) (7) | 14 (9) (5) |
| Cyfanswm TGAU (Ffr) (Alm) | 68 (40) (28) | 70 (40) (30) | 62 (36) (26) | 79 (42) (37) |



# CYFLOGI ATHRAWON IAITH SYDD Â'R WYBODAETH BROFFESIYNOL A'R SGILIAU I GEFNOGI'R DYSGU

**Mae'r nodweddion canlynol o arfer dda yn amlwg:**

1. Mae ysgolion sydd ag aelodau o staff sydd â chymwysterau rhagorol (mewn un neu ddwy iaith fodern), sy'n gwella eu sgiliau'n barhaus a sy'n weithredol wrth hyrwyddo ieithoedd yn nodwedd amlwg.

2. Mae datblygiad proffesiynol mewnol rheolaidd ac effeithiol megis dosbarthiadau meistr a gyflwynir gan aelod o'r adran ieithoedd yn nodwedd amlwg. Mae datblygiad proffesiynol effeithiol ar gyfer athrawon yn rhan allweddol o sicrhau addysgu rhagorol.

3. Mae'r sesiynau datblygiad proffesiynol a hyfforddiant yn cael eu harwain gan arbenigwyr o sefydliadau allanol sy'n cynnwys ieithyddion ac addysgwyr sy'n feistri yn eu meysydd penodol.

4. Anogir y defnydd o gyfleoedd hyfforddi ar-lein a weminarau ac fe gânt eu monitro fel rhan o ddatblygiad proffesiynol staff.

5. Mae presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi CBAC ac anogaeth i fod yn arholwyr allanol y byrddau arholi yn amlwg.

6. Mae cymryd rhan mewn gweithgorau allanol a phrosiectau sy'n cynnwys dysgu digidol yn cael eu hannog gan yr Uwch Dîm Rheoli er mwyn ehangu cymhwysedd a chreadigrwydd staff er enghraifft y prosiect ELAPSE (ychwanegu'r footnote gyda'r wefan).

7. Defnyddio cyfleoedd hyfforddi lleol megis 'Teach Meets' a drefnir gan y consortia addysg rhanbarthol er mwyn dylunio'r cwricwlwm.

*Embedding Languages Across Primary and Secondary Education:
https://lfee.net/category/erasmus-plus-elapse

“Mae gennym ni bum athro iaith yn ein tîm ni. Mae pedwar neu bump ohonynt yn medru cynnig mwy nag un iaith a maent yn hapus i gefnogi a datblygu sgiliau newydd. Mae dau aelod o’r tîm wedi addysgu Cymraeg er mwyn cryfhau’r cydweithio rhwng y dwy adran.

Mae’r mwyafrif o sesiynau datblygiad staff yn digwydd o fewn ein tîm ni neu yng Nghymunedau Dysgu Proffesiynol yr ysgol. Er hyn, mae’r tîm yn rhan o sawl gweithgor ar hyn o bryd, gan gynnwys addysgu digidol, llythrennedd, cwestiynu effeithiol, herio, datblygu gwytnwch ayyb. Mae’r tîm yn aelodau o’r mudiad ALL ac rydym wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o’r prosiect ELAPSE, gyda’n cydweithwyr cynradd.

Mae’r staff yn mynychu cyrsiau CBAC a hefyd yn rhan o sesiynau Teach Meet consortiwm y GCA.

Rydym hefyd yn Ysgol Rwydwaith Addysgu ar gyfer y GCA a rydym yn rhan o ddatblygiadau newydd, treialon ac yn cefnogi a threfnu digwyddiadau ar gyfer ein ysgolion cynradd/uwchradd.

Mae un aelod o’r tîm yn arholwr CBAC ac mae’r tîm ehangach yn cael eu hannog i ymgeisio pan yn briodol, er mwyn cefnogi eu dealltwriaeth o asesu”

“Mae gennym ni bum athro Ieithoedd Modern (mae dau o’r rhain ar gontract rhan amser). Mae tri athro yn addysgu Almaeneg a’n medru addysgu Ffrangeg hyd at flwyddyn 9. Mae’r rôl Ymarferydd Arweiniol wedi ein galluogi i dderbyn cyfleon DPP gydag athro Almaeneg a Ffrangeg yn cynnal dosbarthiadau meistr ar gyfer staff a rydym yn mynychu hyfforddiant CBAC yn flynyddol. Mae tri aelod o staff hefyd yn arholwyr TGAU sy’n rhoi mewnwelediad ar sut mae’r cyrsiau ysgrifennu Ffrangeg ac Almaeneg a llafar UG Ffrangeg yn cael eu arholi.”

“Rydym yn ysgol arweiniol yn GwE ar gyfer ieithoedd ac rydym yn cynnal cyfarfodydd Hwb er mwyn rhannu arfer dda; siaradwyr gwadd ayyb. Mae yna nifer iawn o weminarau ac opsiynau hyfforddiant ar-lein ers y cyfnod clo a 'rwyf wedi argymell y rhain ar gyfer fy nhîm”.

# YR ADRAN IEITHOEDD MODERN

**Mae’r nodweddion canlynol o arfer dda yn amlwg:**

1. Mae gallu pedagogaidd ac ieithyddol y staff addysgu yn eithriadol. Maent yn meddu ar ragoriaeth bedagogaidd a sgiliau hyfforddi a mentora o’r radd flaenaf.

2. Mae'r staff yn hynod frwdfrydig, yn weithredol iawn ac yn cymryd ymagwedd broffesiynol iawn at eu gwaith. Maent yn cynnig amser ac egni ychwaengol i’w disgyblion.

3. Mae staff yn ymroi mewn datblygiad proffesiynol effeithiol, cynaliadwy a pherthnasol, ac mae’r sesiynau’n aml iawn yn cael eu harwain gan y staff ieithoedd eu hunain. Mae staff yn ymrwymo’n llwyr i wella a datblygu eu sgiliau.

4. Mae staff wedi gweithio’n galed i greu cwricwlwm arloesol sy’n cwrdd ag anghenion eu disgyblion.

5. Hyrwyddir ieithoedd ymhob cyfnod allweddol gan yr holl staff dysgu ieithoedd.

6. Mae technoleg ddigidol wedi ei datblygu yn briodol a chreadigol gan yr adran a mae defnydd mwy cyson ac effeithiol o dechnoleg wedi cryfhau gwybodaeth bynciol yr athrawon, wedi gwella eu sgiliau iaith ac wedi eu galluogi i greu adnoddau dysgu o safon ar gyfer eu gwersi iaith.

7. Mae penaethiaid adran wedi cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgymorth yn yr ardal, gan weithio gydag ysgolion cynradd sy’n bwydo’r ysgol a gydag ysgolion uwchradd eraill. Mae’r cysylltiadau yma’n galluogi’r gyfadran i gael dealltwriaeth gyfredol o arfer dda wrth ddysgu ac addysgu ieithoedd.

8. Mae disgyblion yn cael eu hannog yn gryf i fynychu sesiynau cyfoethogi a sesiynau astudio ar ôl ysgol er mwyn ehangu eu dealltwriaeth o’r iaith.

9. Darperir arweiniad a sesiynau cyfoethogi ar gyfer siaradwyr brodorol ieithoedd eraill sy’n dymuno eistedd arholiad ffurfiol yn eu hiaith gyntaf.

“Mae’r tîm Ieithoedd Modern wedi rhoi o’u hamser i gefnogi cynlluniau gwahanol ac mae eu hagwedd wedi gwneud gwahaniaeth mawr am eu bod yn fodelau rôl ar gyfer y myfyrwyr.”

“Gan fod disgyblion yn ddihyder, mae safon ardderchog yr addysgu a’r ffaith bod yr athrawon yn adnabod y disgyblion mor dda, wedi goresgyn y broblem hon. Mae hyn yn cynnwys treialu methodoleg newydd a gwneud yn siŵr bod y disgyblion yn cael mynediad i’r rhain ac yn llwyddo."

“Rydym wedi ail-ysgrifennu ein Cynlluniau Gwaith a wedi datblygu adnoddau fel tîm. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar baratoi cynnwys sy’n cydio yn nychymg y disgyblion yn hytrach nag astudio thema benodol am ei fod yn ymddangos mewn gwerslyfr. Rydym hefyd wedi datblygu gweithgareddau adalw. Dathlwn lwyddiant ein myfyrwyr cyfnodau allweddol 4/5 gyda’n disgyblion iau er mwyn dangos yr hyn y medrir ei gyflawni trwy astudio iaith.

“Mae CDs hunanddysgu a gwefannau ar gael i ddisgyblion er mwyn iddynt eu defnyddio yn eu hamser eu hunain, gan gynnwys rhyngweithio dosbarth-i-ddosbarth arlein gydag ysgol tramor a sgyrsiau dyddiol gyda’r ysgol gyfnewid yn Ffrainc.”

“Ar gyfer y Cwricwlwm Newydd rydym yn datblygu pwnc Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ar y cyd gyda’r adrannau Saesneg a Chymraeg gan ganolbwyntio ar feistroli’r Saesneg, gweld cysylltiadau rhwng ieithoedd ac amlieithrwydd.”

“Y prif reswm am eu llwyddiant yw’r dulliau y maent yn eu defnyddio wrth addysgu ieithoedd yn fy marn i. Maent wedi bod yn ysgol arweiniol ar gyfer Llythrennedd Amlieithog yn ERW ers 2015, ac yn y cyfnod hwn mae hyder a dycnwch y disgyblion wedi codi’n eithriadol pan yn dysgu ieithoedd newydd. Dyma fydd y dull sy’n cael ei gyflwyno yn y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'r cwricwlwm newydd gan gysoni strategaethau a negeseuon ar sut mae ieithoedd yn gweithio i ddisgyblion, gan eu galluogi i wneud cynnydd ynghynt. Mae hefyd yn gam cadarnhaol bod ysgolion cynradd yn y clwstwr wedi cyflwyno Ffrangeg gan fabwysiadu’r un dull, gan ychwanegu trydedd iaith i’r cyd-destun dwyieithog.”

“Mae hyrwyddo yn rhywbeth yr ydym yn ei wneud ymhob gwers yn hytrach na fel strategaeth ‘ffocws y bythefnos’. Rydym yn canolbwyntio ar ddathlu gwyliau diwylliannol, cerddoriaeth, ffilm, llenyddiaeth yn ogystal â’r iaith dan sylw. Hyrwyddir ieithoedd yn ffurfiol pan roddir y colofnau opsiwn i ddisgyblion, a gofynnwn i’n disgyblion UG/Uwch i ddod i siarad gyda’n disgyblion blynyddoedd 9/11 am eu profiadau wrth astudio ieithoedd.”

“Rydym yn hyrwyddo ieithoedd bob dydd yn y dosbarth e.e gwaith cartref blwyddyn 9 – gwneud ymchwil i fusnes Almaenig e.e Adidas, Haribo – ac yna cysylltu rhain gyda’n bywydau ni a dangos y cyfleon ychwanegol sydd ar gael wrth astudio iaith. Ym mlwyddyn 8, rydym yn hyrwyddo astudio ail iaith ym mlwyddyn 9 a rydym yn canolbwyntio ar bwysigrwydd dewis iaith fodern fel pwnc TGAU. Rydym yn dathlu diwrnod ieithoedd hefyd."



# CREU AWYRGYLCH IEITHYDDOL GYFOETHOG GAN DDARPARU CYFLEOEDD ALLGYRSIOL A PHARTNERIAETHAU ER MWYN YCHWANEGU AT Y DYSGU

**Mae’r nodweddion canlynol o arfer dda yn amlwg:**

1. Mae’r ysgol a’r Adran Ieithoedd Modern yn ymwybodol o'r effaith y mae gweithio gyda sefydliadau allanol yn ei gael ar y ddarpariaeth iaith mewn ysgolion – y staff yn weithredol iawn wrth gymryd mantais o bob cyfle.

2. Mae yna bwyslais mawr ar ddealltwriaeth diwylliannol, fel rheol trwy ymweliadau tramor cyson neu trwy ystod eang o weithgareddau cyfoethogi.

3. Mae cysylltiadau busnes a phartneriaethau cryf wedi eu creu er mwyn hyrwyddo ieithoedd ac er mwyn darparu cyfleon profiad gwaith.

- “Cyfnod Allweddol 3 – clwb ar ôl ysgol wedi ei arwain gan Lysgenhadon Iaith Llwybrau at Ieithoedd Cymru gan gynnig pob iaith er mwyn cefnogi amlieithrwydd a dathlu ieithoedd cymuned/y cartref.
- Cyfleoedd ar gyfer blwyddyn 8 i fod yn Lysgenhadon Iaith, sydd yna’n arwain y strategaeth a chefnogi digwyddiadau, trefnu ffocws iaith y mis, cystadlaethau a chreu PwyntiauPwer ar gyfer dosbarthiadau cofrestru gyda gwybodaeth iaith benodol/brawddegau allweddol.
- TGAU - cyfleoedd i gwblhau cymhwyster galwedigaethol mewn iaith na astudir fel pwnc TGAU e.e Eidaleg (cynigir Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg hefyd). Cynllun llythyru yn yr Almaen/Ffrainc.
- UG/Lefel A – cyfleon i weithio gyda’r Cynradd trwy redeg Clwb Ffrangeg / Almaeneg. Penodir prif swyddogion ieithoedd i gefnogi digwyddiadau, croesawu ymwelwyr.
- Rhennir gwybodaeth am sefydliadau allanol e.e Gwobr Stephen Spender am gyfieithu barddoniaeth / Juvenes Translatores / UK German Connection/ Goethe Institut.
- Mae disgyblion TGAU a Lefel A yn cael y cyfle i fynd ar brofiad gwaith dramor. Mae disgyblion wedi mynychu cyrsiau a gynigir gan UK German Connection yn Berlin, Hamburg a Llundain”

- "CA3: Clwb ITM Blwyddyn 8. Ymweld â'r Almaen/Ffrainc - rydym fel arfer yn mynd â 150 disgybl ar y teithiau hynod boblogaidd yma. Mae yna restr aros bob tro! Gweithgareddau cyswllt Blwyddyn 9.
- TGAU: Ymweld â Berlin – ysgol iaith – mewn cyfnewid sydd wedi digwydd ers dros 30 mlynedd. Mae'r niferoedd wedi lleihau felly gwnaethom drefnu ymweliad â Berlin a mae hyn wedi bod yn boblogaidd iawn. Mae athrawon Ffrangeg yn gobeithio trefnu digwyddiad tebyg i Nice.
- Rydym yn cynnal sesiynau adolygu a chefnogaeth ychwanegol o fis Ionawr ymlaen ar ôl ysgol."

"Canfyddiadau disgyblion a rhieni –gweithgareddau hyrwyddo a dulliau newydd o drefnu ymweliadau wrth siaradwyr allanol a chyn-ddisgyblion. Cysylltiadau rhagorol gyda'r Project Mentora Caerdydd. Cymorth Cynorthwyydd Iaith Almaeneg am flwyddyn a drefnwyd trwy brifysgol o'r Almaen yn uniongyrchol. Siaradwyr allanol i hyrwyddo ieithoedd i flynyddoedd 8 a 9. Mae cadw mewn cysylltiad â chyn-ddisgyblion a chydweithio gydag ysgolion cynradd yn allweddol."

- CA3: gweithdai/dosbarthiadau meistr yn Stadiwm Dinas Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, trip Paris, Clwb Ieithoedd, Bake Off Ieithoedd, Pontio EDOL ar gyfer blwyddyn 6 (CA2).
- TGAU: trip i Lille. Clwb Ieithoedd, Bake Off Ieithoedd.
- UG/Lefel A: trip i Lille, gweithdai/siaradwyr gwadd/dosbarthiadau meistr (Prifysgol Abertawe, Ysgol Uwchradd Caerleon, Ysgol Gyfun Porthcawl). Fel rhan o'n rôl fel Ymarferwyr Arweiniol ydym wedi cynnal nifer o weithdai ar gyfer disgyblion Ffrangeg ac Almaeneg ysgolion lleol.

"Mae diwrnodau neu wythnosau iaith, ymweliadau oddi wrth siaradwyr brodorol a chlybiau sy'n cynnig sesiynau blasu ieithoedd eraill i ddisyblion yn weithgareddau hanfodol wrth hyrwyddo ieithoedd"

# CEFNOGAETH I LYWODRAETHWYR

## Arfer dda wrth Gynllunio a Chyflwyno Ieithoedd Modern mewn Ysgolion

routes into LANGUAGES
llwybrau at ieithoedd
CYMRU